
**Adroddiad Perfformiad – DIWEDD BLWYDDYN 2016-17**


<u>Perfformiad corfforaethol yn erbyn targed 2016/17</u>

**<u>Crynodeb Cyffredinol o'r Cyngor</u>**




<u>Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â 2015/16</u>


**<u>Crynodeb Cyffredinol o'r Cyngor</u>**




**Adroddiad Perfformiad – DIWEDD BLWYDDYN 2016-17**

## Perfformiad Blaenoriaeth yn erbyn targed 2016/17


### Diogelu





### Disgybl





### Cymunedau




### Yr Economi





### Tlodi





## Perfformiad Blaenoriaeth o'i gymharu â 2015/16


### Diogelu





### Disgybl





### Cymunedau




### Yr Economi




### Tlodi



**Adroddiad Perfformiad 2016/17**

**Diwedd y Flwyddyn**

| Cyflawnodd y targed Gwyrdd | O fewn 5% i'r targed Ambr | Collodd y targed Coch |
|---|---|---|

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn** | | | | | | | | |
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth | **Mesur 18 ↑**<br>Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod | COCH<br>89.66% | 95% | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn y flwyddyn a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod gwaith<br>**1,136** | **DD/B** | Bydd yr Uwch-reolwyr yn cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau bod Rheolwyr Arweiniol Dynodedig yn ymateb o fewn amserlen briodol |
| | | | | | | Cyfanswm nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.<br>**1,267** | **DD/B** | |
| | **AS8 ↑**<br>Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion i'r Gwasanaethau i Oedolion lle gwnaed penderfyniadau o fewn 24 awr | COCH<br>65.27% | 80% | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn y chwarter a gwblhawyd o fewn 24 awr<br>**827** | **DD/B** | |
| | | | | | | Cyfanswm nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn<br>**1,267** | **DD/B** | |
| | **AS7 ↓**<br>Canran yr atgyfeiriadau diogelu o ran pobl mewn cartrefi preswyl/nyrsio lle mae'r unigolyn wedi bod yn destun atgyfeiriad amddiffyn blaenorol | COCH<br>37% | 20% | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer yr unigolion y cwblhawyd atgyfeiriadau amddiffyn oedolion ar eu cyfer yn ystod y cyfnod lle roeddent yn byw mewn cartref preswyl/gofal ac roeddent yn destun atgyfeiriadau diogelu blaenorol<br>**210** | **DD/B** | Effeithiwyd ar y perfformiad ar y cyfan yn anghymesur gan nifer uwch na'r arfer o ail-atgyfeiriadau diogelu mewn perthynas ag un cartref gofal penodol. Ystyriwyd llawer o'r ail-atgyfeiriadau hyn yn amhriodol a chymerwyd camau rheoli o ganlyniad. Roedd hyn yn creu anawsterau wrth osod targed realistig ar gyfer y flwyddyn gyntaf o adrodd ar ddangosydd newydd lle nad oedd data hanesyddol i'w gymharu ar gael. Ymdriniwyd â hyn am y flwyddyn sydd i ddod. |
| | | | | | | Cyfanswm nifer yr unigolion y cwblhawyd atgyfeiriadau amddiffyn oedolion ar eu cyfer yn ystod y cyfnod lle roeddent yn byw mewn cartref gofal preswyl/nyrsio<br>**571** | **DD/B** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth | **AS5 ↓**<br>Canran yr unigolion y cwblhawyd atgyfeiriad amddiffyn oedolion ar eu cyfer lle mae gan yr unigolyn dan sylw gynllun gofal a chefnogaeth sy'n weithredol ar ddiwedd y cyfnod | **GWYRDD**<br>**36.94%** | 85% | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | O'r unigolion y cwblhawyd atgyfeiriadau amddiffyn oedolion ar eu cyfer yn ystod y cyfnod, nifer yr unigolion gyda chynllun gofal a chefnogaeth weithredol ar ddiwedd y cyfnod.<br>**181**<br>Nifer yr unigolion y cwblhawyd atgyfeiriadau amddiffyn oedolion ar eu cyfer yn ystod y cyfnod<br>**490** | **DD/B**<br>**DD/B** | Yn absenoldeb data hanesyddol neu arweiniad terfynol gan Lywodraeth Cymru sy'n cadarnhau pa ddata oedd i'w gasglu, roedd yn rhaid diwygio'r targed a roddwyd. Fodd bynnag, mae'r perfformiad gwirioneddol sy'n arddangos y gall unigolion gael eu diogelu'n effeithiol heb orfod derbyn gofal a chefnogaeth barhaus yn gadarnhaol ac yn dystiolaeth bod ymagwedd fwy ataliol ar waith. |
| | **SCA019 ↑**<br>Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg (h.y. lleihau neu gael gwared ar y risg, cynllun amddiffyn oedolion mewn lle) | **AMBR**<br>**93.60%** | 95% | 93.48% | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle rheolwyd y risg.<br>**307**<br>Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn y flwyddyn<br>**328** | **258**<br>**276** | Rydym bron wedi cyrraedd y targed, ond byddwn yn parhau i edrych ar sut i wella perfformiad yn 2017/18. |
| | **AS6 ↓**<br>Nifer y cleientiaid sy'n oedolion sy'n derbyn gofal preswyl/nyrsio lle mae darparwr y gwasanaeth yn amodol ar brotocol pryderon cynyddol | **COCH**<br>**23** | 0 | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer y cleientiaid sy'n oedolion sy'n derbyn gofal preswyl/nyrsio lle mae darparwr y gwasanaeth yn amodol ar brotocol pryderon cynyddol<br>**23**<br>E<br>**1** | **DD/B**<br>**DD/B** | Mae'n afrealistig i feddwl na fydd hyn yn digwydd byth, a'r peth pwysig yw ein bod ni'n gweithio'n agos gyda chartrefi ac AGGCC er mwyn mynd i'r afael â phroblemau mewn modd rhagweithiol Sylwer, roedd yr un cartref o dan bryderon cynyddol yn chwarter 3 a 4. Felly, mae'r ffigur cyfanswm yn adlewyrchu nifer gwirioneddol y bobl sydd mewn cartref sydd dan drefniadau pryderon cynyddol yn ystod y flwyddyn. |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur | 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth | **CFS17 ↓** Nifer yr atgyfeiriadau diogelu a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod. | **AMBR** **1215** | 1200 | 1047 | **COCH** ↘ | Nifer yr atgyfeiriadau diogelu a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod. | **1,215** | **1,047** | Mae dadansoddiad o raddfeydd a tharddiad atgyfeiriadau diogelu amhriodol yn barhaus. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a darparwyr i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol drwy ganolbwyntio ar gefnogaeth lles yn lle. |
| | | | | | | E | **1** | **1** | |
| | **CFS14 ↑** Canran y penderfyniadau a wnaed o ran atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gymerir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad | **GWYRDD** **100%** | 100% | 100% | **SEFYDLOG** ↔ | Nifer y penderfyniadau ynghylch atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gymerir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad | **1,776** | **1,501** | |
| | | | | | | Nifer yr atgyfeiriadau am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y cyfnod. | **1,776** | **1,501** | |
| | **CFS16 ↑** Canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol. | **AMBR** **90.13%** | 92% | 94.78% | **COCH** ↘ | Nifer y cyfarfodydd craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant | **347** | **327** | Mae nifer uwch na'r disgwyl o blant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn chwarter pedwar ac mae hyn wedi effeithio ar berfformiad. Cynhelir dadansoddiad o resymau dros y cynnydd hwn er mwyn sicrhau bod arfer sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n addas o ran risg yn parhau i gael ei wreiddio'n dda o fewn y Gwasanaethau i Blant. |
| | | | | | | Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod pan cofrestru oedd y canlyniad. | **385** | **345** | |
| | **CFS11 ↓** Nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Mawrth | **COCH** **252** | 220 | 216 | **COCH** ↘ | Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod (ac eithrio cofrestriadau dros dro) | **252** | **216** | Nid os nifer cywir neu anghywir o blant y dylent fod yn destun cynllun amddiffyn plant ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, rhwng 220 a 250 o blant yw'r amrediad arferol ar gyfer Abertawe ar unrhyw adeg. Mae nifer uwch na'r disgwyl o blant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn chwarter pedwar. Cynhelir dadansoddiad o resymau dros y cynnydd hwn er mwyn sicrhau bod arfer sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n addas o ran risg yn parhau i gael ei wreiddio'n dda o fewn y Gwasanaethau i Blant. |
| | | | | | | E | **1** | **1** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth | **CFS12 ↓**<br>Y gyfradd fesul 1,000 (poblogaeth 0-17) o blant a gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. | COCH<br>5.36 | 4.68 | 4.59 | COCH<br>↘ | Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod (gan eithrio cofrestriadau dros dro)<br>**252**<br>Poblogaeth Plant (0-17 oed)<br>**47,026** | <br><br>**216**<br><br>**47,030** | Mae nifer uwch na'r disgwyl o blant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn chwarter pedwar. Cynhelir dadansoddiad o resymau dros y cynnydd hwn er mwyn sicrhau bod arfer sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n addas o ran risg yn parhau i gael ei wreiddio'n dda o fewn y Gwasanaethau i Blant. |
| | **Mesur: 28 ↓**<br>Hyd amser y plant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd | GWYRDD<br>213 dyddiau | 280 dyddiau | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Swm hyd yr amser (mewn diwrnodau) y mae pob plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant os oeddent wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y cyfnod.<br>**26,578**<br>Nifer y plant a dynnwyd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y cyfnod<br>**125** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | |
| | **Mesur: 27 ↓**<br>Canran y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol o fewn 12 mis o'r cofrestriad blaenorol | GWYRDD<br>5.58% | 18% | 18.98% | GWYRDD<br>↗ | Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, o fewn 12 mis o ddiwedd y cofrestriad blaenorol.<br>**22**<br>Cyfanswm nifer cofrestriadau'r Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn.<br>**394** | <br>**41**<br><br>**216** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn y rhai hynny sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth | **CFS15 ↓**<br>Canran y plant sy'n dechrau derbyn gofal a oedd yn derbyn gofal o fewn 12 mis o'r digwyddiad newydd. | **AMBR**<br>**15.59%** | 15% | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn y cyfnod, a oedd yn derbyn gofal o fewn 12 mis o'r digwyddiad newydd<br>**29**<br>Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y cyfnod.<br>**186** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | Collwyd y targed ond mae hyn yn ymwneud â nifer bach iawn o blant. Mewn gwirionedd, petai 2 yn llai o blant yn y garfan heb dderbyn gofal, byddai'r targed wedi'i gyflawni'n gyfforddus. |
| | **CFS13a ↓**<br>Plant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll a) nifer yr achosion o blant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll yn ystod y cyfnod. | **GWYRDD**<br>**264** | 320 | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer yr achosion o blant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll yn ystod y cyfnod.<br>**264**<br>E<br>**1** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | |
| | **CFS13b ↓**<br>Plant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll b) Nifer y plant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll sydd ar goll am fwy na 24 awr yn ystod y cyfnod. | **dim cag**<br>**-** | | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer y plant sy'n derbyn gofal yr adroddwyd eu bod ar goll sydd ar goll am fwy na 24 awr yn ystod y cyfnod.<br>**DD/B**<br>E<br>**DD/B** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | Mae gwaith parhaus i wella gallu adrodd am berfformiad er mwyn cofnodi'r data hwn ond, ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth hon ar gael. |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur | 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth well ymhlith gweithwyr y cyngor ac aelodau etholedig o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'i drefniadau | **SAFE5a ↑** Nifer yr elfennau hyfforddiant a gwblhawyd gan staff newydd neu staff presennol mewn diogelu pobl ddiamddiffyn (yn y gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion) • E-ddysgu | **dim cag** **6121** | Dd/B | 4840 | GWYRDD ↗ | Nifer yr elfennau hyfforddiant a gwblhawyd gan staff newydd neu staff presennol mewn diogelu pobl ddiamddiffyn (yn y gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion) • E-ddysgu | **6,121** | **4,840** | Gan ystyried 2016/17 fel cyfnod o flwyddyn, 1505 oedd y targed i'w gwblhau a'r cyfanswm a gyflawnwyd oedd 1460. Mae hyn yn cyfateb i lwyddiant o 97% o gyflawniadau. Mae dangosyddion hyfforddiant diogelu wedi'u cyflwyno i SAFE27 ar gyfer 2017/18 ar gyfer perfformiad corfforaethol ar y cyfan. |
| | | | | | | E | **1** | **1** | |
| | **SAFE5b ↑** Canran yr elfennau hyfforddiant a gwblhawyd gan staff newydd neu staff presennol mewn diogelu pobl ddiamddiffyn (yn y gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion) • E-ddysgu | **dim cag** **73.3%** | Dd/B | 86.4% | COCH ↘ | Nifer yr elfennau hyfforddiant a gwblhawyd gan staff newydd neu staff presennol mewn diogelu pobl ddiamddiffyn ( y gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion) drwy E-ddysgu | **6,121** | **4,840** | |
| | | | | | | Cyfanswm nifer yr elfennau hyfforddiant a nodwyd i'w cyflwyno i staff newydd neu staff presennol mewn diogelu pobl ddiamddiffyn (y gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu Oedolion) drwy E-ddysgu | **8,350** | **5,600** | |
| | **SAFE6a ↑** Nifer y staff newydd neu'r staff presennol sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn • Wyneb yn wyneb | **dim cag** **2877** | Dd/B | 1411 | GWYRDD ↗ | Nifer y staff newydd neu'r staff presennol sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn • Wyneb yn wyneb | **2,877** | **1,411** | Gan ystyried 2016/17 fel cyfnod o flwyddyn, 1300 oedd y targed i'w gwblhau a'r cyfanswm a gyflawnwyd oedd 1510. Mae hyn yn cyfateb i lwyddiant o 116% o gyflawniadau, ac felly wedi cyflawni mwy na'r targed blynyddol. Mae dangosyddion hyfforddiant diogelu wedi'u cyflwyno i SAFE27 ar gyfer 2017/18 ar gyfer perfformiad corfforaethol ar y cyfan. |
| | | | | | | E | **1** | **1** | |
| | **SAFE6b ↑** Canran y staff newydd neu'r staff presennol sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn • Wyneb yn wyneb | **dim cag** **75.1%** | Dd/B | 54.3% | GWYRDD ↗ | Nifer y staff newydd neu'r staff presennol sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn • Wyneb yn wyneb | **2,877** | **1,411** | |
| | | | | | | Cyfanswm y bobl y nodwyd eu bod yn staff newydd neu'n staff presennol a fydd yn derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn • Wyneb yn wyneb | **3,833** | **2,600** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth well ymhlith gweithwyr y cyngor ac aelodau etholedig o'r Polisi Diogelu Corfforaethol a'i drefniadau | **SAFE27 ↑**<br>Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol o fewn y flwyddyn ariannol | **dim cag**<br>**1066** | | - | **DP newydd, dim data hanesyddol** | Nifer yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant diogelu pobl ddiamddiffyn<br>**1,066**<br>E<br>**1** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | Yn ystod y flwyddyn ariannol (2016/17) mae 1066 o aelodau staff wedi cwblhau naill ai cwrs Diogelu wyneb yn wyneb neu ddau fodiwl e-ddysgu Diogelu (Plentyn ac Oedolyn). Nid yw'r ffigur yn cynnwys staff addysg mewn ysgolion. DS: Sylwer, yn ychwanegol i'r 1066 o staff a nodir uchod, mae 199 o staff ychwanegol wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Oedolyn yn unig ac mae 143 aelod o staff arall wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Plentyn yn unig. |
| | **SAFE7a ↑**<br>Nifer yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn | COCH<br>14 | 20 | 5 | GWYRDD<br>↗ | Nifer y gweithwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i'w rôl drwy: i) Hyfforddiant wyneb yn wyneb ii) cwblhau'r ddwy elfen e-ddysgu neu iii) hyfforddiant Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol penodol<br>**14**<br>E<br>**1** | <br>**5**<br><br>**1** | Mae un sesiwn hyfforddi ychwanegol ar gyfer yr arweinwyr sy'n weddill yn cael ei threfnu gan gydlynydd y Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| | **SAFE8a ↑**<br>Nifer yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn | COCH<br>56 | 72 | 43 | GWYRDD<br>↗ | Nifer yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu pobl ddiamddiffyn<br>**56**<br>E<br>**1** | <br>**43**<br><br>**1** | Mae'r cwrs hyfforddi e-ddysgu'n dal i fod ar gael i gynghorwyr ei ddefnyddio i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol. |
| Mae gweithwyr y cyngor a phobl yn ein cymunedau'n teimlo'n hyderus am sut i nodi, trafod a rhoi gwybod am bryderon am blant ac oedolion | **SAFE1 ↑**<br>Canran y staff sy'n gwybod pwy yw'r cynghorydd arweiniol ar gyfer diogelu | GWYRDD<br>76.0% | 44% | 27.5% | GWYRDD<br>↗ | Nifer y staff sy'n ymateb 'Ie' i: Ydych chi'n gwybod pwy yw'r cynghorydd arweiniol ar gyfer diogelu?<br>**860**<br>Cyfanswm yr atebwyr a atebodd y cwestiwn<br>**1,132** | <br>**491**<br><br>**1,786** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur *<br>D – Enwadur<br>2016/17 | <br><br>2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gweithwyr y cyngor a phobl yn ein cymunedau'n teimlo'n hyderus am sut i nodi, trafod a rhoi gwybod am bryderon am blant ac oedolion | **SAFE2 ↑**<br>Canran y staff sy'n gwybod pwy yw arweinydd dynodedig eu hadran ar gyfer diogelu | **COCH**<br>**62.4%** | 67% | 46.7% | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer y staff sy'n ymateb 'Ie' i: Ydych chi'n gwybod pwy yw arweinydd dynodedig eich adran ar gyfer diogelu? | | Mae gwelliannau sylweddol wedi bod mewn perfformiad eleni er nad yw'r targed uchelgeisiol a osodwyd wedi'i fodloni'n llawn eto. |
| | | | | | | **1,185** | **832** | |
| | | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn | | |
| | | | | | | **1,900** | **1,782** | |
| | **SAFE3 ↑**<br>Canran y staff yr esboniwyd eu cyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant iddynt | **GWYRDD**<br>**86.0%** | 75% | 63.7% | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer y staff sy'n ymateb 'Ie' i: A esboniwyd i chi beth yw'ch cyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant? | | |
| | | | | | | **1,616** | **1,137** | |
| | | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn | | |
| | | | | | | **1,879** | **1,785** | |
| Mae ymagwedd ddiogelu'r cyngor yn hyrwyddo'r CCUHP a chaiff ei llywio ganddo | **POV04 ↑**<br>Nifer yr ysgolion sydd wedi cyflawni gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Lefel 1 neu uwch | **COCH**<br>**58** | 73 | 49 | **GWYRDD**<br>↗ | Cyfanswm nifer yr ysgolion yn Abertawe a enillodd Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Lefel 1 neu uwch | | Mae 93 o 96 ysgol bellach yn rhan o'r broses o gyflawni gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Lefel 1 neu uwch. Gall hyn gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni ac mae'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae pedwar cam i gyflawni'r wobr ac mae'r targed yn cofnodi'r ddau gam olaf yn unig. Y bwriad yw y bydd pob ysgol yn gweithio tuag at gyflawni lefel 1 y wobr erbyn mis Gorffennaf 2017. Mae 35 o ysgolion eraill yn yr ail gamau cychwynnol o dderbyn eu gwobr lawn ac maent naill ai wedi'u cynnwys a'u hyfforddi neu wedi mynd ymlaen i wneud cofnod o ymrwymiad ac wedi creu cynllun gweithredu. |
| | | | | | | **58** | **49** | |
| | | | | | | E | | |
| | | | | | | **1** | **1** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Ymrwymiadau polisi o ran diogelu

62. Sicrhau pwyslais newydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar atal ac ymyrryd yn gynnar
63. Ymchwilio i greu Bond Effaith Gymdeithasol er mwyn helpu i ddiwygio'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
64. Adleoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol i weithio'n uniongyrchol yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'u cyd-leoli â gwasanaethau eraill
65. Integreiddio systemau'n well, gan sicrhau cysylltiadau mwy effeithiol o lawer rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant.
68. Buddsoddi yn ein staff ar bob lefel yn y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Mae'r cyngor wedi blaenoriaethu ei gyfrifoldebau diogelu ac yn y cyd-destun hwnnw maent wedi gosod targedau heriol, nid yn unig ar gyfer perfformiad y gwasanaethau plant ac oedolion, ond ar gyfer y cyngor ar y cyfan. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd gosod targedau addas ond heriol i nifer bach o ddangosyddion a all ymddwyn fel mesur dirprwy dibynadwy ar gyfer iechyd trefniadau diogelu'r cyngor ar y cyfan. Mae eleni wedi bod yn gyfle dysgu i'r cyngor oherwydd, ar hyn o bryd, gallai'r dangosyddion dewisol a'r methiant arddangosiadol i fodloni targedau roi'r argraff anghywir am iechyd trefniadau'r cyngor ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gwyddom o ystyried dadansoddiad ehangach yr holl ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, yr her fforensig a ddarperir gan ein paneli craffu, yr adborth gan ddinasyddion a'r adolygiadau amrywiol a gynhaliwyd gan AGGCC, fod gennym wasanaethau plant statudol cryf iawn ar waith a threfniadau cadarn sy'n gwella ar waith ar gyfer y gwasanaethau i oedolion. Rydym hefyd yn gwybod bod staff o bob rhan o'r cyngor a'n haelodau etholedig wedi cael hyfforddiant diogelu, a'u bod yn gwneud defnydd gweithredol o'r hyfforddiant hwnnw drwy geisio cefnogaeth i blant ac oedolion diamddiffyn fel rhan o'u gwaith ehangach mewn cymunedau.

Adolygwyd y dangosyddion cyfredol a'u hadnewyddu am y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn ac i alluogi ffocws parhaus i wella ein trefniadau i gefnogi a diogelu rhai o'n dinasyddion mwyaf diamddiffyn yn Abertawe ymhellach.

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 2: Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion** | | | | | | | | |
| Cyfraddau presenoldeb gwell mewn ysgolion cynradd ac uwchradd | **EDU016a ↑**<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | **AMBR**<br>**94.88%** | 95.0% | 94.87% | **GWYRDD**<br>↗ | - Cyfanswm y sesiynau a gollwyd gan bob disgybl mewn ysgolion cynradd<br>**5,696,420**<br>Nifer y sesiynau posibl ar gyfer pob disgybl ysgol gynradd<br>**6,003,628** | **5,630,868**<br>**5,935,354** | 94.9% - yr un peth â'r llynedd.<br>Mae'r safle wedi symud i lawr un i'r 12fed safle. Mae'r ganran yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru. |
| | **EDU016b ↑**<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | **GWYRDD**<br>**94.33%** | 94.1% | 93.97% | **GWYRDD**<br>↗ | Cyfanswm nifer y sesiynau na gollwyd gan bob disgybl mewn ysgolion uwchradd<br>**3,582,306**<br>Nifer y sesiynau posibl ar gyfer pob disgybl ysgol uwchradd<br>**3,797,462** | **3,504,870**<br>**3,729,807** | Mae'r safle wedi symud i lawr un i'r 11eg safle. 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae tuedd ar i fyny sylweddol o'i chymharu â Chymru gyfan. |
| Cyfraddau rhifedd a llythrennedd gwell i ddisgyblion | **EDCP28 ↑**<br>Cyfnod Sylfaen (7 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn SAESNEG | **AMBR**<br>**85.6%** | 88.0% | 87.0% | **COCH**<br>↘ | Yn ystod y Cyfnod Sylfaen (7 oed), nifer y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Saesneg<br>**1,900**<br>Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd mewn Saesneg yn Abertawe.<br>**2,220** | **2,068**<br>**2,377** | Gostyngiad ar draws rhanbarth ERW. |
| | **EDCP29 ↑**<br>Cyfnod Sylfaen (7 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg | **GWYRDD**<br>**92.0%** | 92.0% | 92.2% | **COCH**<br>↘ | Yn ystod y Cyfnod Sylfaen (7 oed), nifer y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg yn Abertawe<br>**369**<br>Yr holl ddisgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed), a aseswyd mewn Cymraeg yn Abertawe<br>**401** | **376**<br>**408** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraddau rhifedd a llythrennedd gwell i ddisgyblion | **EDCP32 ↑** Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy mewn Darllen SAESNEG | GWYRDD 86.3% | 85.5% | 85.5% | GWYRDD ↗ | SAESNEG - Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2-9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | | Targed i wella o'i gymharu â'r llynedd. 2.5% yn uwch na chyfartaledd Cymru. 4ydd Safle |
| | | | | | | **16,985** | **16,508** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Darllen Cenedlaethol yn Saesneg yn Abertawe | | |
| | | | | | | **19,678** | **19,308** | |
| | **EDCP33 ↑** Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr o 85 neu fwy mewn Darllen CYMRAEG | GWYRDD 85.9% | 84.8% | 84.8% | GWYRDD ↗ | CYMRAEG - Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | | Targed i wella o'i gymharu â'r llynedd. 1.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru. 7fed Safle. |
| | | | | | | **2,242** | **2,101** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Darllen Cenedlaethol yn Gymraeg yn Abertawe | | |
| | | | | | | **2,610** | **2,477** | |
| Cyfraddau rhifedd a llythrennedd gwell i ddisgyblion | **EDCP34 ↑** Prawf Rhifedd Cenedlaethol - Gweithdrefnol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | GWYRDD 87.3% | 86.7% | 86.7% | GWYRDD ↗ | Prawf Rhifedd - Gweithdrefnol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | | Targed i wella o'i gymharu â'r llynedd. 3% yn fwy na chyfartaledd Cymru. 6ed Safle. |
| | | | | | | **17,678** | **17,402** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Rhifedd Cenedlaethol – Gweithdrefnol – yn Abertawe | | |
| | | | | | | **20,259** | **20,072** | |
| | **EDCP35 ↑** Prawf Rhifedd Cenedlaethol – Rhesymu ar gyfer Blynyddoedd 2 – 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | AMBR 88.0% | 88.3% | 88.3% | COCH ↘ | Prawf Rhifedd – Rhesymu ar gyfer Blynyddoedd 2 – 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | | Targed i wella o'i gymharu â'r llynedd. 0.3% yn llai na'r llynedd. 3.2% yn uwch na chyfartaledd Cymru. 6ed Safle |
| | | | | | | **17,824** | **17,724** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a aseswyd ym Mhrawf Rhifedd Cenedlaethol – Rhesymu – yn Abertawe | | |
| | | | | | | **20,257** | **20,072** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur | 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraddau rhifedd a llythrennedd gwell i ddisgyblion | **EDCP30 ↑**<br>Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o SAESNEG | **AMBR**<br>**90.0%** | 92.0% | 90.9% | **COCH**<br>↘ | Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Nifer y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o SAESNEG | **2,247** | **2,270** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd mewn Saesneg | **2,498** | **2,498** | |
| | **EDCP31 ↑**<br>Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o GYMRAEG iaith gyntaf | **GWYRDD**<br>**93.2%** | 91.7% | 92.9% | **GWYRDD**<br>↗ | Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o GYMRAEG iaith gyntaf | **289** | **260** | |
| | | | | | | Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf | **310** | **280** | |
| Cyrhaeddiad addysgol gwell i ddisgyblion | **EDU017 ↑**<br>Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gyflawnodd 5 TGAU neu fwy gyda graddau A*- C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn ystod yr haf blaenorol | **AMBR**<br>**64.70%** | 65.0% | 64.01% | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod yn yr haf blaenorol sy'n ennill 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C neu gyfwerth galwedigaethol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf) a mathemateg | **1,604** | **1,526** | Mae'r safle wedi gostwng i'r 7fed safle er bod canran wedi cynyddu 0.7% ers y flwyddyn flaenorol. Ffigur cyhoeddedig LIC yw hwn ond nid yw'n cynnwys disgyblion EOTAS (gwall LICC). Bydd y dangosydd yn dod i ben ar ôl 2017. Collwyd y targed o 0.3%. |
| | | | | | | Pob disgybl a addysgir ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gofnodwyd ar ffurflen PLASC Ionawr ar gyfer y garfan honno. | **2,479** | **2,384** | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Ymrwymiadau polisi o ran cyrhaeddiad

14. Codi safonau addysgol a pherfformiad yr holl ysgolion a'r disgyblion yn Abertawe
15. Rhoi rhaglen ar gyfer rhannu arfer gorau rhwng athrawon ac ysgolion ar waith
16. Archwilio ffyrdd o wella ymrwymiad disgyblion a'u presenoldeb
17. Cyflwyno fframwaith perfformiad ysgol uchelgeisiol, cadarn a chefnogol
12. Mabwysiadu perthynas ddeinamig newydd ag ysgolion, colegau addysg bellach, y ddwy brifysgol yn Abertawe a chyflogwyr
13. Datblygu cynllun strategol Dinas Dysg dros ddeng mlynedd
18. Hyrwyddo ysgolion sy'n seiliedig ar y gymuned dysgu fel teulu
19. Annog mwy o gydweithio rhwng ysgolion
20. Ailgydbwyso ariannu ysgol i ganolbwyntio ar angen
21. Sicrhau bod 85% o'r cyllid yn cael ei glustnodi'n uniongyrchol i ysgolion
23. Archwilio creu campws Sgiliau a chynllun prentisiaethau

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Ymrwymiadau Polisi 12, 13 a 23

- Mae'r Grŵp Strategaeth Addysg, wedi'i gadeirio gan Arweinydd y Cyngor, yn parhau i archwilio ffyrdd newydd o weithio gydag ysgolion a chyflwyno gwasanaethau hanfodol a statudol wrth i'r cyllid leihau.
- Mae Coleg Gŵyr wedi cymryd yr awenau ar ddysgu sy'n seiliedig ar waith. Mae partneriaid allanol hefyd yn cyflwyno dysgu a hyfforddiant ôl-16. Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaeth Tlodi a'i Atal yn gweithio gyda'r tîm Cyllid Ewropeaidd ac Allanol i ddarparu gwasanaethau ataliol ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.
- Derbyniodd Abertawe wobr Dinas Dysg UNESCO yn y gynhadledd ym Mecsico – yr unig un yn y DU ac un o 12 yn unig ar draws y byd ar y pryd. Mae Abertawe yn bwriadu cynnal Seminar Dinas Dysg Rhanbarthol UNESCO yn 2017.

Ymrwymiad Polisi 14

- Mae perfformiad mewn ysgolion yn Abertawe wedi parhau i wella. Ardderchog fu'r farn gyffredinol am ddwy ysgol uwchradd yn eu harolygiadau gan Estyn ers dechrau blwyddyn academaidd 2015-2016.
- Parhaodd ymgynghorwyr herio i ganolbwyntio ar ysgolion lle nodwyd bod perfformiad yn destun pryder. Cynhaliodd dwy ysgol uwchradd wreiddiol Her Ysgolion Cymru, Treforys a Phentrehafod, eu gweithgareddau gwella. Mae Ysgol Gyfun Dylan Thomas hefyd wedi elwa o gefnogaeth Her Ysgolion Cymru yn 2015-2016

Ymrwymiadau Polisi 15, 17 ac 19

- Mae ymgynghorwyr herio yn Abertawe wedi cwblhau'r rhaglen ymweliadau flynyddol i asesu ysgolion. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cyhoeddwyd categorïau pob ysgol gynradd ac uwchradd ddiwedd mis Ionawr 2017, yn unol â'r system genedlaethol. Nod system gategoreiddio Llywodraeth Cymru yw nodi'r lefel briodol o gefnogaeth ar gyfer pob ysgol yn ôl yr angen. Ceir pedwar lliw: mae gwyrdd yn cydnabod bod ysgol wedi'i chynnal yn dda, ei bod yn hynod effeithiol a bod ganddi arweinyddiaeth gref; mae melyn yn nodi bod ysgol eisoes yn gwneud yn dda, ond yn gwybod y gall wella rhai meysydd; mae ambr yn golygu bod angen cymorth ar ysgol i wella'n gyflymach; ac mae coch yn golygu ysgolion y mae angen y gwelliant mwyaf arnynt. Mae'r ffigurau categori yn dangos gwelliant ar y flwyddyn flaenorol. Nid oes gan Abertawe unrhyw ysgolion coch. O'r 79 o ysgolion cynradd yn Abertawe, mae 35 wedi'u dyfarnu'n wyrdd, sy'n fwy na'r 29 yn 2016; mae 32 yn ambr; mae 12 yn ambr, sef dau'n llai na'r llynedd; ac nid oes un yn goch. Mae wyth ysgol uwchradd yn y categori gwyrdd, pedwar yn y melyn a dau yn yr ambr. Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Abertawe wedi symud o goch i ambr, mae Ysgol Arbennig Penybryn yn wyrdd ac mae Ysgol Crug Glas yn ambr.
- Mae'r ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod ysgolion yn cefnogi ei gilydd yn parhau i gael ei datblygu, gan gynnwys ysgolion o bob categori'n cydweithio i wella. Sefydlwyd system ranbarthol ar gyfer nodi a rhannu arfer da.

**(parhad)**

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth)**

Ymrwymiad Polisi 16

• Mae presenoldeb dros dair blynedd yn parhau i wella mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a chyrhaeddwyd targedau perfformiad. Mae presenoldeb uwchradd yn well na'r flwyddyn flaenorol ac mae 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn y 11eg safle yn genedlaethol.

Roedd presenoldeb cynradd yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, yn cyfateb i gyfartaledd Cymru ac yn y 12fed yn genedlaethol.

Mae gwaharddiadau parhaol yn parhau i fod yn isel ac mae gwaharddiadau tymor penodol o ysgolion uwchradd yn lleihau.

Ymrwymiad Polisi 18

• Ar ôl i arian grant ddod i ben, mae gwasanaeth canolog llai ar gyfer Dysgu fel Teulu bellach ar waith.

Mae rhai ysgolion yn ariannu'r ddarpariaeth eu hunain.

Ymrwymiadau Polisi 20 a 21

Sicrhau bod 85% o'r cyllid wedi'i ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion - 83.6% oedd y ddirprwyaeth ar gyfer 2015-16 a chynyddodd i 84.8% yn 2016-17. Yn ychwanegol at hyn, mae cyllid wedi'i ddatganoli i ysgolion yn ystod y flwyddyn ariannol o ddarpariaeth EOTAS. Mae Is-grŵp Cyllid ar y Cyd y Fforwm Cyllidebau Ysgol yn parhau i archwilio goblygiadau mwy o doriadau i gyllid yn y dyfodol, a lleddfu eu heffaith, yng nghyd-destun diwallu angen. Mae'r fforwm yn gweithio gyda'r Grŵp Strategaeth Addysg ar fodel ar gyfer addysg yn y dyfodol.

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 3: Creu dinas ac economi lewyrchus llawn addewid** | | | | | | | | |
| Fframwaith polisi cynllunio sy'n cefnogi creu dinas ac economi lewyrchus a llawn addewid | **EP28 ↑**<br>Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos | GWYRDD<br>85.94% | 80.0% | 84.03% | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm yr holl geisiadau cynllunio eraill y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn<br>**1,437**<br>-Cyfanswm yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn<br>**1,672** | **1,558**<br>**1,854** | Cyflwynwyd system TG cynllunio newydd ym mis Hydref 2016 |
| | **EC2 ↑**<br>Canran yr holl geisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir. | GWYRDD<br>91% | 85% | 85% | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm y ceisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwywyd.<br>**41**<br>Cyfanswm nifer y ceisiadau mawr a bennwyd yn ystod y flwyddyn<br>**45** | **802**<br>**941** | Roedd y DP hwn yn arfer cynnwys ceisiadau bach, cytunwyd i newid hyn i gynnwys mathau o geisiadau mawr yn unig gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn fwy sylweddol mewn perthynas â geiriad y DP. |
| Arwynebedd llawr masnachol o ansawdd gwell a fydd yn creu mwy o swyddi mewn lleoliadau cynaliadwy | **EC3 ↑**<br>Cyfanswm yr arwynebedd llawr masnachol (m²) sydd wedi'i greu yng nghanol y ddinas ar gyfer creu swyddi | GWYRDD<br>6,647m² | 4,890m² | 3,730m² | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm yr arwynebedd llawr masnachol a grëwyd fesul metr sgwâr yng nghanol y ddinas<br>**6,647m²**<br>E<br>**1** | **3,730m²**<br>**1** | Mae cyllid 'ar y gweill' ychwanegol a sicrhawyd wedi galluogi cynnydd sylweddol ar y prosiect hwn yn ystod y misoedd diwethaf.<br>Mae 3,136 metr sgwâr pellach yn cael eu creu ar hyn o bryd i'w cwblhau yn y misoedd nesaf. |
| Cyfleoedd byw gwell yn y ddinas drwy wneud y defnydd gorau o dir priodol a thir a ddatblygwyd eisoes | **EC4 ↑**<br>Nifer yr unedau tai newydd sydd wedi'u creu yng nghanol dinas Abertawe o ganlyniad i gyllid o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | COCH<br>54 units | 63 units | 33 units | GWYRDD<br>↗ | Nifer ychwanegol o unedau tai newydd a gwblhawyd yng nghanol dinas Abertawe drwy Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid.<br>**54**<br>E<br>**1** | **33**<br>**1** | Mae 48 uned arall ar y safle ar hyn o bryd.<br>Roedd disgwyl i'r 48 hyn gael eu cwblhau o fewn blwyddyn ariannol 16/17, ond mae oedi wrth sicrhau cyllid ychwanegol wedi oedi cynnydd. |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **ESD1** ↑ Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad) | COCH **£18.20m** | £34.50m | £22.25m | COCH ↘ | Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad)<br>**£18.20m**<br>E<br>1 | <br>**£22.25m**<br><br>1 | Nid yw cynllun mawr Stryd Mariner wedi dechrau ar y safle eto, mae'r cynllun wedi'i ohirio oherwydd cyllid.<br>Bydd yn awr yn mynd rhagddo yn 2017/18. |
| Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant | **BBMA3** ↑ Nifer yr wythnosau o hyfforddiant a chyflogaeth sydd wedi'u creu gan Y Tu Hwnt i Frics a Morter ar gyfer pobl a oedd yn ddi-waith neu'n anweithgar yn economaidd | GWYRDD **395** | 350 | 343 | GWYRDD ↗ | Nifer yr wythnosau o hyfforddiant a chyflogaeth a gyflawnwyd<br>**395**<br>E<br>1 | <br>**343**<br><br>1 | |
| Estyn y tymor twristiaeth a'r cynnig i dwristiaid fel rhan o arallgyfeirio'r economi wledig | **CTT3** ↑ Nifer yr ymwelwyr a ddenwyd i Abertawe (miliynau) | **dim cag** **4.59** | Dd/B | 4.47 | GWYRDD ↗ | Nifer yr ymwelwyr a ddenwyd i Abertawe (miliynau)<br>**4.59**<br>E<br>1 | <br>**4.47**<br><br>1 | |
| | **CTT4** ↑ Twristiaeth - cyfanswm effaith economaidd Twristiaeth i Abertawe (£m) | **dim cag** **£400.37m** | Dd/B | £390.30m | GWYRDD ↗ | Twristiaeth - Y swm o arian a wariwyd gan ymwelwyr a ddenwyd i Abertawe (£m)<br>**£400.37m**<br>E<br>1 | <br>**£390.3m**<br><br>1 | |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Estyn y tymor twristiaeth a'r cynnig i dwristiaid fel rhan o arallgyfeirio'r economi wledig | **CTT10 ↑** Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth | **dim cag** **5674** | Dd/B | 5910 | COCH ↘ | Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth **5674** E 1 | **5910** 1 | Mae natur dymhorol twristiaeth yn effeithio ar y cyfleoedd cyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ddirywiad ffiniol yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn ac mae'r diffiniad yma'n ymestyn i'r effeithiau ar gyfleusterau manwerthu, arlwyo a hamdden |

## Creu Dinas ac Economi Lewyrchus a Llawn Addewid

| Canlyniad | Gweithred | Sylwadau |
|---|---|---|
| Datblygiad manwerthu a hamdden bywiog newydd yng nghanol y ddinas, gan ddechrau gydag ailddatblygiad cynhwysfawr safle Dewi Sant. | Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu Dewi Sant. | Cyflwynwyd y cais cynllunio a'r dogfennau ategol ar 23 Mawrth. Bydd argymhelliad y swyddog yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu arno ym mis Mehefin. |
| Canolfan Gyflogaeth ar Ffordd y Brenin er mwyn ysgogi datblygiad menter | Paratoi safleoedd cam cyntaf a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu swyddfeydd newydd, adnewyddu adeiladau a gwelliannau isadeiledd (gan gynnwys digidol) ar gyfer Canolfan Gyflogaeth Ffordd y Brenin. | Mae safleoedd camau cyntaf ar Ffordd y Brenin a Stryd Rhydychen Isaf bellach wedi'u cynnwys, gan ddarparu'r ôl troed ar gyfer datblygiad cam cyntaf y Pentref Digidol.<br>Cyflwynwyd achos busnes manwl i WEFO am gyfraniad o £4 miliwn i'r gwaith isadeiledd.<br>Mae'r gwaith dymchwel strwythurol bellach wedi datblygu'n dda yn Oceana.<br>Mae cytundeb ariannu'r Fargen Ddinesig wedi'i lofnodi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn hyn.<br>Model busnes 5 achos ar gyfer prosiect Dinas Digidol i'w gwblhau. |
| Ailddatblygu safle'r Ganolfan Ddinesig, gan gyfrannu at wella bywiogrwydd canol y ddinas | Dewis datblygwr a sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r Ganolfan Ddinesig. | Dewiswyd Trebor Developments a'u tîm fel rheolwr datblygu.<br>Trafodaethau gyda'r Brifysgol ar gyfer Canolfan Hydro a chyfleuster ymchwil fel atyniad i dwristiaid.<br>Gwaith dichonoldeb manwl ar adleoli swyddfeydd y cyngor a fyddai'n creu safle gwag.<br>Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ar waith i asesu risg llifogydd. |
| Datblygu Tai Strategol a chynigion datblygu safleoedd defnydd cymysg cyn y CDLl er mwyn lleihau diffyg yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai | Cyflwyno'r CDLl Adnau i'w archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio. | Mae gwaith ychwanegol bellach wedi'i gomisiynu ar effaith y Fargen Ddinesig ac amcanestyniadau twf economaidd diwygiedig ar strategaeth a dyraniadau'r CDLl. Ynghyd â diweddariad ar yr arfarniadau dichonoldeb ariannol ar bob un o'r ardaloedd datblygu strategol, preswyl yn bennaf. |
| | Cymeradwyo ceisiadau cynllunio a datblygu canllaw cynllunio atodol ar gyfer tai strategol a safleoedd datblygu cymysg. | Penderfynir ar geisiadau yn unol â gofynion statudol. |
| Denu buddsoddiad newydd gan gwmnïau nad ydynt yn bodoli yn Abertawe ar hyn o bryd | Dyfeisio cynnig mewnfuddsoddi gyda swyddfa farchnata ranbarthol a deunyddiau marchnata ar waith i ddenu cyfleoedd buddsoddi newydd. | Swyddfa ranbarthol a rhith-dîm ar waith. |
| Estyn y tymor twristiaeth a'r cynnig i dwristiaid fel rhan o arallgyfeirio'r economi wledig | Mabwysiadu arweiniad cynllunio atodol (SPG) sy'n ymwneud â chyfleoedd llety gwyliau | Mae'r SPG penodol hwn wedi'i ohirio oherwydd bod llwyth gwaith y CDLl yn cael blaenoriaeth.<br>Yn ychwanegol, gwnaed gwaith hefyd ar ganllawiau eraill, yn enwedig polisïau Canol y Ddinas a pholisi HMO (Tai Amlfeddiannaeth) newydd a pholisi datblygiadau i fyfyrwyr newydd. |

| Amcan Cysylltiedig | DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2016/17 | Targed 2016/17 | Perfformiad 2015/16 | O'i gymharu â 2015/16 | N – Rhifiadur * D – Enwadur 2016/17 | 2015/16 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Ymrwymiadau polisi o ran creu economi lewyrchus llawn addewid

34. Ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n byw yng nghanol y ddinas
24. Bydd Abertawe'n gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned fusnes i hyrwyddo Dinas-ranbarth Bae Abertawe
25. Defnyddio £11m yn y Cyfrif Refeniw Tai i wella tai'r cyngor a hybu'r economi leol.
28. Creu ymagwedd glir, gydlynol a chytbwys at ganol y ddinas
36. Gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu dinas-ranbarth creadigol; Creu campws gwyddoniaeth ac arloesedd er mwyn i Abertawe fod yn ganolbwynt gwyddonol, technolegol a chreadigol.
31. Cynllunio ar gyfer system cludiant cynaliadwy
32. Gwella rhagdybiaethau o'n dinas fel lle i weithio a byw ynddo, ac ymweld ag ef
33. Gwella ein mannau cyhoeddus, ac etifeddiaeth adeiledig ac adeiladau gwag y ddinas

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Mae Fframwaith Adfywio Ardal Ganolog Abertawe'n pennu cyfeiriad y polisi strategol ar gyfer gweithredu rhaglen adfywio'r cyngor yn barhaus, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ymrwymiadau polisi 34, 24, 25, 28, 32 a 33. Mae datblygiadau preswyl newydd ac arwynebedd llawr masnachol sylweddol wedi cael eu cyflwyno drwy gynlluniau a ariennir gan Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda phartneriaid sector cyhoeddus a phreifat ar draws canol y ddinas. Yn ychwanegol, mae nifer sylweddol o wythnosau hyfforddi a chyflogaeth wedi cael eu creu gan gynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter y cyngor ar gyfer y di-waith a'r anweithgar yn economaidd.
Mae rheolwyr datblygu wedi'u penodi ar gyfer safleoedd y Ganolfan Ddinesig a Chanolfan Dewi Sant ac mae adolygiadau technegol a thrafodaethau â deiliad wedi hen ddechrau.
Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg a arweinir gan fanwerthu a hamdden ar gyfer cynllun Abertawe Ganolog ar 23 Mawrth. Mae gweithredwyr hefyd ar y rhestr fer ar gyfer prosiect yr Arena. Mae hen adeilad Oceana wrthi'n cael ei ddymchwel a defnyddiwyd cyllid o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid i gwblhau caffaeliadau strategol cyfagos eraill, gan ddarparu'r ôl-troed datblygu sydd ei angen i gyflawni cam cyntaf prosiect y Pentref Digidol ar Ffordd y Brenin.
Mae gweithio gyda phartneriaid Dinas-ranbarth Bae Abertawe, fel y'i disgrifir yn PC 24, yn parhau ar frys cyn dod i ben gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Leol yn llofnodi cytundeb y Fargen Ddinesig ym mis Mawrth.
